# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (FFORDD FYNEDIAD YR YSGOL AR CROSSTREE LANE, PENARLÂG) (TRAFFIG UNFFORDD) 2023

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn Arbrofol wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 9 a 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill ar 28 Chwefror 2023, a'i effaith fydd:

Gwahardd unrhyw gerbyd rhag defnyddio'r darnau o ffyrdd a nodir yng Ngholofn 1 i Atodlen yr Hysbysiad hwn ac eithrio i'r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â'r darnau o ffyrdd yng Ngholofn 2 i'r Atodlen honno.

Mae copi o'r Gorchymyn, a ddaw yn weithredol ar 3 Mawrth 2023, ynghyd â chynlluniau'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah, Sir y Fflint CH5 4HA yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig, neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Bydd y Cyngor yn ystyried, maes o law, a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. O fewn cyfnod o 6 mis wedi i'r Gorchymyn ddod i rym, neu os yw'r Gorchymyn yn cael ei addasu neu ei amrywio wedi hynny, ers i'r addasiad neu'r amrywiad hwnnw ddod i rym (pa un bynnag yw'r hwyraf), gall unrhyw un wrthwynebu gwneud y Gorchymyn at bwrpas parhad amhenodol o'r fath.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod o fewn chwe mis i'r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym, neu'r dyddiad y bydd unrhyw amrywiad neu addasiad neu'r amrywiad neu'r addasiad diweddaraf wedi dod i rym gan nodi cyfeirnod SS/TRO/JB/49/EO/CTL/2023

Gall unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Arbrofol (a wnaed ar 28 Chwefror 2023) neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar sail nad ydynt o fewn y grymoedd y cyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu ar sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion deddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 28 Chwefror 2023 i'r diben hwn.

## ATODLEN

| **Colofn 1**<br>**<u>Enw'r Ffordd</u>** | **Colofn 2**<br>**<u>Cyfeiriad a Ganiateir</u>** |
|---|---|
| Ffordd Fynediad yr Ysgol ar Crosstree Lane. - O Ochr Ogleddol Ffordd Fynediad yr Ysgol (Cyffordd 1) ar Crosstree Lane, i Ochr Ddeheuol Ffordd Fynediad yr Ysgol (Cyffordd 2) â Crosstree Lane, Penarlâg. | Dwyrain i'r Gorllewin |

KWilby

Katie Wilby, Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NF. Dyddiedig y trydydd dydd o fis Mawrth 2023

DYDDIEDIG 28 CHWEFROR 2023

# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT
# (FFORDD FYNEDIAD YR YSGOL AR CROSSTREE LANE, PENARLÂG)
# (TRAFFIG UNFFORDD) 2023

Katie Wilby,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint,
CH7 6NF

# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (FFORDD FYNEDIAD YR YSGOL AR CROSSTREE LANE, PENARLÂG) (TRAFFIG UNFFORDD) 2023

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 9, 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio dan gyfarwyddyd neu ar ôl cael caniatâd gan Cwnstabl mewn Lifrai achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i ddefnyddio'r darnau o ffyrdd a nodir yng ngholofn 1 Atodlen y Gorchymyn hwn ac eithrio i'r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â'r darnau hynny o ffyrdd yng Ngholofn 2 yr Atodlen.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n berthnasol dan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid ydynt yn rhanddirymiad iddynt.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym am gyfnod heb fod yn hirach na 18 mis o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn neu hyd nes mae'n cael ei wneud yn barhaol.

6. Yn unol ag adran 10(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gall y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) os bydd yn ymddangos yn hanfodol ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r

ardal mae unrhyw ddarn o ffordd a effeithir gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

**ATODLEN**

| **Colofn 1**<br>**<u>Enw'r Ffordd</u>** | **Colofn 2**<br>**<u>Cyfeiriad a Ganiateir</u>** |
|---|---|
| Ffordd Fynediad yr Ysgol ar Crosstree Lane. - O Ochr Ogleddol Ffordd Fynediad yr Ysgol (Cyffordd 1) ar Crosstree Lane, i Ochr Ddeheuol Ffordd Fynediad yr Ysgol (Cyffordd 2) â Crosstree Lane, Penarlâg. | Dwyrain i'r Gorllewin |

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

yn y fan hon )

ar yr 28ain diwrnod o fis Chwefror 2023


yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD** Mared Eastwood

~~**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**~~

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~




Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | NGW |
| CHECKED BY: | RN |
| SCALE: | 1: NTS @ A3 |
| NAT. GRID REF: | 331722 365840 |

CONSTRUCTION | PRELIMINARY | AS-BUILT


| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

Cross Tree Lane, Hawarden

One-Way

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER HT/23/CTLH | 201 | P1




Sir y Fflint Flintshire County Council

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: RN

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 331722 365840

CONSTRUCTION | PRELIMINARY | AS-BUILT

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

Cross Tree Lane, Hawarden

One-Way

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER HT/23/CTLH 201 P1

## GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (FFORDD FYNEDIAD YR YSGOL AR CROSSTREE LANE, PENARLÂG) (TRAFFIG UNFFORDD) 2023

### DATGANIAD O RESYMAU DROS WNEUD Y GORCHYMYN ARBROFOL


Ar 28 Chwefror 2023, gwnaeth Cyngor Sir y Fflint Orchymyn Arbrofol i gyflwyno system Unffordd ar Ffordd Fynediad yr Ysgol ar Crosstree Lane, Penarlâg, o'r gyffordd ogleddol gyda Crosstree Lane i'r gyffordd ddeheuol gyda Crosstree Lane.

Bydd y cynnig yn caniatáu ar gyfer parcio ychwanegol o fewn rhan fewnol adran 'D' ar Ffordd Fynediad yr Ysgol, a fydd yn mynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas â pharcio a thagfeydd ar Crosstree Lane yn ystod amseroedd casglu a gollwng.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bawb sy'n defnyddio'r ffordd.

**Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig**

Dyddiedig 3 Mawrth 2023



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF